




➔ Pensiynau personol

Y gwahanol fathau o bensiynau personol, sut maent yn gweithio a pha un allai fod yn addas i chi

- Yr opsiynau sydd ar gael
- Pethau i'w hystyried
- Penderfynu a yw pensiwn personol yn addas i chi

Gwneud eich arian a'ch dewisiadau pensiwn yn gliriach

Beth bynnag eich amgylchiadau, mae HelpwrArian ar eich ochr chi. Ar-lein a thros y ffôn, rydym yn cynnig arweiniad clir sy'n gyflym i'w ddarganfod, yn hawdd ei ddefnyddio ac wedi'i gefnogi gan y llywodraeth. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau dibynadwy, os oes angen rhagor o gymorth arnoch.

Gallwn ni eich helpu i:

- delio â dyled
- deall eich opsiynau pensiwn
- lleihau eich gwariant a chronni cynilion
- llywio digwyddiadau bywyd megis colli swydd, torperthynas, ymddeol neu brofedigaeth
- cyllidebu ar gyfer biliau neu bryniannau mawr
- dysgu am forgeisi a rhentu
- cael gwybod am fudd-daliadau a hawliadau ychwanegol.

Chwiliwch am HelpwrArian: moneyhelper.org.uk/cy


Arweiniad diduedd am ddim

ar-lein | dros y ffôn

Gan y



**Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau**



Yma i'ch helpu chi

Os ydych yn hunangyflogedig a ddim yn gweithio ar hyn o bryd, neu na fedrwch chi ymuno â chynllun pensiwn gweithle, bydd y canllaw hwn yn rhoi cymorth i chi ddeall y manteision o gynilo mewn pensiwn personol a pha fath allai fod yn addas i chi.

Cynnwys

Beth yw pensiwn personol?	2	Faint ddylech chi gynilo i mewn i pensiwn?	10
Mathau o pensiwn personol – cipolwg	3	Dewis darparwr pensiynau	11
Sut mae pensiynau personol yn gweithio	4	Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn	13
Pensiynau cyfranddeiliaid	6	Cymryd eich pensiwn	15
Pensiynau Buddsoddi Personol (SIPP)	8	Egluro'r jargon	16
		Cysylltiadau defnyddiol	17

Beth yw pensiwn personol?

Mae pensiwn personol yn fath o gynllun pensiwn ac yn unol fel cynlluniau pensiwn eraill, mae'n cynnig ffordd effeithiol o ran treth i gynilo ar gyfer ymddeoliad.

Mae pensiwn personol yn gadael i chi gronni cronfa o arian i'w ddefnyddio pan fyddwch yn ymddeol. Mae eich arian yn cael ei fuddsoddi felly dylai dyfu dros amser.

Fel arfer caiff eich cyfraniadau hwb hefyd gan ryddhad treth. Mae hyn yn golygu bod y Dreth Incwm y byddech fel arfer yn ei thalu i'r llywodraeth yn mynd i mewn i'ch pensiwn yn lle hynny.

O 55 oed (57 o fis Ebrill 2028), fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o'ch cronfeydd pensiwn yn ddi-dreth – hyd at uchafswm o £268,275 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

Os oes gennych bensiwn personol hyn eisoes, efallai y gallech gymryd mwy na 25% yn ddi-dreth. Gallwch wirio hyn gyda darparwr eich pensiwn.

Gweler '*Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn*' (t13) am ragor o wybodaeth

Pwy all gael pensiwn personol?

Mae pensiynau personol yn addas ar gyfer amrywiaeth eang o bobl ac yn werth eu hystyried os:

- rydych yn hunangyflogedig
- byddwch yn dibynnu ar Bensiwn y Wladwriaeth fel eich unig incwm ymddeoliad
- mae gennych incwm afreolaidd neu rydych yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith
- nid ydych yn gweithio ond yn gallu fforddio talu i mewn i bensiwn.

Hyd yn oed os nad oes gennych unrhyw fath o gyflogaeth â thâl gallwch dalu i mewn i bensiwn personol serch hynny a chael rhyddhad treth. Gallwch hyd yn oed roi arian i mewn i gynllun pensiwn ar gyfer eich plant neu wyrion a wyresau.

Gall pensiynau personol gael eu defnyddio hefyd law yn llaw â phensiwn gweithle. Ond bydd unrhyw gynllun a gynigir gan eich cyflogwr yn debygol o fod yn well borgen na chymryd pensiwn personol allan ar wahân, yn enwedig os bydd yn rhoi arian i gyfateb i'r hyn y byddwch chi'n dewis ei dalu i mewn.

Mathau o bensiwn personol – cypolwg

Mae yna dri math gwahanol o bensiwn personol, a gellir defnyddio pob un ohonynt fel cynllun pensiwn gweithle.

- **Pensiynau personol safonol** – a gynigir gan y rhan fwyaf o ddarparwyr pensiwn mawr ac fel arfer yn rhoi amrywiaeth o ddewisiadau buddsoddi i chi (gweler t4).
- **Pensiwn cyfranddeiliaid** yn gadael i chi wneud cyfraniadau lleiaf isel, stopio a dechrau taliadau a throsglwyddo allan heb unrhyw gost. Caiff taliadau blynyddol eu capio, ond gallant fod yn uwch na phensiynau eraill (gweler t6).
- **SIPPs (Pensiynau Buddsoddi Personol)** – yn aml yn rhoi ystod ehangach o opsiynau buddsoddi i chi na phensiynau cyfranddeiliaid neu bersonol safonol, ond gallai taliadau fod yn uwch (gweler t8).

Gall cyflogwyr gynnig pensiynau personol fel eu pensiwn gweithle ac os felly fe'i gelwir yn '**Pensiwn personol grŵp**', '**Pensiwn cyfranddeiliaid grŵp**' neu '**Pensiwn buddsoddi personol grŵp**'.

Dewisiadau eraill yn lle pensiwn personol os ydych yn hunangyflogedig neu'n unig gyfarwyddwr

Os ydych yn hunangyflogedig neu'n unig gyfarwyddwr cwmni, efallai y byddwch yn gymwys i ymuno â NEST – cynllun pensiwn gweithle cenedlaethol sydd â thaliadau isel ac sy'n hawdd i'w weinyddu.

Yr isafswm y gallwch ei dalu i mewn yw £10 bob tro a'r uchafswm yn ystod y flwyddyn dreth yw hyd at y Lwfans Blynyddol cyfredol. I'r rhan fwyaf o bobl mae hyn yn £60,000 neu 100% o'ch enillion os yw'n llai (gweler t14).

- Gallwch ddysgu am bensiynau NEST ar gyfer yr hunangyflogedig yn [nestpensions.org.uk](https://www.nestpensions.org.uk) (chwilio 'self-employed')

Sut mae pensiynau personol yn gweithio

Mae pob math o bensiwn personol yn buddsoddi eich arian felly dylai dyfu dros amser, ond mae rhai yn cynnig dewis ehangach o fuddsoddiadau i ddewis rhyngddynt. Dyma beth sydd angen i chi ei wybod, gan gynnwys y ffioedd a'r taliadau y byddwch chi'n eu talu fel arfer.

Pan fyddwch yn sefydlu pensiwn personol, fel arfer gallwch ddewis faint yr hoffech ei dalu i mewn – gan gynnwys symiau misol rheolaidd a chyfrandaliadau fel y dymunwch.

Fel arfer byddwch yn cael rhyddhad treth ar eich cyfraniadau ac mae eich cynilion yn tyfu'n ddi-dreth i raddau helaeth (gweler t13).

Bydd eich darparwr pensiwn yn aml yn rheoli gwahanol gronfeydd buddsoddi, felly gallwch chi benderfynu sut yr hoffech i'ch arian gael ei fuddsoddi.

Bydd faint o arian fydd gennych pan fyddwch yn ymddeol yn dibynnu ar:

- am ba hyd rydych yn cynilo
- faint sy'n cael ei dalu i mewn
- pa mor dda mae eich buddsoddiadau wedi perfformio
- y taliadau a dalwyd gennych.

Pwynt allweddol

Bydd eich cronfa bensiwn yn cael ei fuddsoddi. Gan nad oes unrhyw fuddsoddiad wedi'i warantu, mae risg y gallech gael llai yn ôl nag yr ydych yn ei dalu i mewn.

Dewis buddsoddiadau

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau pensiwn personol yn cynnig amrywiaeth o gronfeydd buddsoddi.

Mae hyn fel arfer yn cynnwys cronfeydd sy'n buddsoddi mewn:

- pethau penodol – fel cyfranddaliadau cwmni, bondiau'r llywodraeth neu eiddo
- ardaloedd neu wledydd penodol – fel cwmnïau o'r DU neu Ewropeaidd
- cymysgedd – fel cyfranddaliadau cwmni byd-eang a bondiau'r llywodraeth.

Bydd y dewis o fuddsoddiadau o fewn pob cronfa yn cael ei reoli gan reolwyr cronfa proffesiynol.

Dylai eich darparwr pensiwn restru sut mae'r gronfa wedi perfformio yn y gorffennol, y taliadau y byddwch yn eu talu ac a yw'n risg uchel, canolig neu isel.

Fel arfer gallwch ddewis buddsoddi mewn un gronfa neu wasgaru eich arian dros nifer o gronfeydd.

Ffioedd a thaliadau

Fel arfer byddwch yn talu costau o'ch cronfa bensiwn i dalu am y gost o fuddsoddi a rheoli'r cronfeydd.

Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys ffi reoli flynyddol (canran o werth eich cronfa fel arfer) a ffioedd os ydych am newid eich cronfeydd.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn deall ac yn cymharu taliadau cyn dewis darparwr pensiwn a'r cronfeydd i fuddsoddi ynddynt. Nid yw cronfa gyda chost uwch yn golygu ei bod yn gwarantu perfformiad uwch.

Gall cynghorydd ariannol rheoleiddiedig eich helpu i ddewis darparwr pensiwn a rhoi cyngor ar y cronfeydd buddsoddi i'w dewis (gweler t11).

Os ydych yn defnyddio cynghorydd ariannol, bydd yn rhaid i chi dalu ffi am y cyngor. Byddwch yn cael gwybod faint yw hyn cyn i chi ymrwymo.

Gallai talu am gyngor arbed arian i chi yn y tymor hir.

Cyfriflen flynyddol

Rhaid i'ch darparwr pensiwn personol roi gwybodaeth reolaidd i chi am eich cronfa bensiwn.

Mae hyn yn cynnwys cyfriflen flynyddol i ddweud wrthych faint sydd wedi'i dalu i mewn, pa mor dda y mae eich buddsoddiadau wedi perfformio a rhagolwg o faint y gallai eich pensiwn ei dalu i chi pan fyddwch yn hŷn.

Gallwch ddefnyddio hwn i wirio a ydych yn cynilo digon ar gyfer ymddeoliad cyfforddus.

Pensiynau personol ar gyfer eich plant neu wyrion ac wyresau

Os byddwch yn sefydlu pensiwn personol ar gyfer eich plant neu wyrion, gallant elwa o ryddhad treth ar gynilion hyd at £2,880 y flwyddyn (gweler t13). Mae hyn yn golygu y gellir cynyddu eich cyfraniadau i £3,600.

Gallant gyrchu'r arian pan fyddant yn cyrraedd yr isafswm oedran ymddeol arferol – 55 ar hyn o bryd (57 o fis Ebrill 2028).

A yw pensiwn personol yn addas i chi?

Os ydych o dan 75 yn y DU, gallwch ddechrau pensiwn personol. Gallwch hefyd drosglwyddo cronfeydd pensiwn eraill i bensiwn personol ar unrhyw oedran.

Os ydych yn hunangyflogedig, ddim yn gweithio neu os nad oes gennych fynediad at bensiwn gweithle, gallai agor pensiwn personol fod yn ffordd dda o gynilo ar gyfer eich ymddeoliad.

Os oes gennych chi bensiwn gweithle eisoes ac eisiau cynilo mwy, mae fel arfer yn gwneud synnwyr i roi mwy yn eich cynllun gweithle. Mae hyn oherwydd bod y taliadau fel arfer yn is ac efallai y bydd eich cyflogwr yn cyfateb i'ch cyfraniadau.

Pensiynau cyfranddeiliaid

Mae pensiynau cyfranddeiliaid yn fath o bensiwn personol y mae'n rhaid iddynt fodloni safonau gofynnol a bennir gan y llywodraeth i sicrhau bod pobl sy'n eu dewis yn cael cynnig teg.

Pam maen nhw'n wahanol?

Yn wahanol i pensiynau personol safonol, Rhaid i pensiynau cyfranddeiliaid gynnig:

- isafswm cyfraniadau isel
- hyblygrwydd i gychwyn a stopio taliadau heb gosb
- taliadau wedi'u capio (efallai y bydd gan rai pensiynau personol safonol daliadau is)
- trosglwyddiadau di-dâl
- cronfa fuddsoddi 'ragosodedig' lle bydd eich arian yn cael ei fuddsoddi ynddi os nad ydych am ddewis cronfa eich hun.

Taliadau isafswm isel

Mae angen isafswm taliad ar rai darparwyr pensiwn i'w gadw'n weithredol. Ni all yr isafswm ar gyfer pensiynau cyfranddeiliaid fod yn uwch na £20 ac nid oes angen ei dalu bob mis. Ond fel arfer mae angen i chi dalu llawer mwy na hyn - ac yn rheolaidd - ar gyfer ymddeoliad cyfforddus.

Gweler *Faint ddylech chi gynilo i mewn i bensiwn?* (t10).

Dysgwch faint mae angen i chi ei gynilo drwy ddefnyddio ein **Cyfrifiannell pensiwn** yn moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-pensiwn

Hyblygrwydd i gychwyn a stopio taliadau

Gallwch dalu i mewn i bensiwn cyfranddeiliaid yn rheolaidd neu fel y dymunwch. Gallwch newid y swm ac oedi talu i mewn heb unrhyw gostau.

Ffioedd wedi'u capio

Yr uchafswm tâl blynyddol y gall darparwyr pensiwn cyfranddeiliaid ei dynnu o'ch cronfa bensiwn fel arfer yw 1.5% yn y 10 mlynedd gyntaf, yna 1%.

Os yw eich cronfa werth £240 yn y flwyddyn gyntaf, ni all eich tâl blynyddol fod yn uwch na £3.60.

Efallai y bydd gennych daliadau wedi'u capio is os:

- gwnaethoch ddechrau eich pensiwn cyfranddeiliaid cyn 6 Ebrill 2005 - yr uchafswm yw 1%
- mae eich cyflogwr yn defnyddio cynllun pensiwn cyfranddeiliaid fel ei gynllun pensiwn gweithle - yr uchafswm ar gyfer cronfa ddiofyn yw 0.75%.

Mae'n bosibl y bydd rhai darparwyr pensiwn cyfranddeiliaid yn codi llai na'r uchafswm, felly cymharwch daliadau bob amser cyn ymuno.

Trosglwyddiadau di-dâl

Gallwch newid i ddarparwr pensiwn arall unrhyw bryd, yn ddi-dâl.

Cronfa ragosodedig

Os nad ydych am ddewis cronfa fuddsoddi eich hun, bydd eich arian fel arfer yn mynd i mewn i gronfa 'ragosodedig' darparwr pensiwn cyfrandeiliaid.

Bydd llawer o gronfeydd rhagosodedig yn gwneud dewisiadau buddsoddi yn seiliedig ar eich dyddiad ymddeol disgwylid.

Mae hyn fel arfer yn golygu y bydd eich darparwr pensiwn yn cymryd llai o risgiau gyda'ch arian po agosaf y byddwch yn cyrraedd ymddeoliad, gan fod llai o amser i adennill unrhywgolledion buddsoddi.

Efallai na fydd aros yn y gronfa ragosodedig yn iawn i chi os ydych yn bwriadu cymryd arian o'ch cronfa bensiwn cyn neu ar ôl y dyddiad y mae eich cynllun yn disgwyl i chi ymddeol.

Mae hyn oherwydd y gallai eich arian gael ei fuddsoddi am gyfnod hirach neu fyrrach nag a gynlluniwyd ar ei gyfer, felly gallech golli allan ar dwf buddsoddiad – neu caiff eich arian ei gadw mewn cronfeydd mwy peryglus am gyfnod hwy.

Gall cynghorydd ariannol rheoledig roi cyngor i chi ar yr opsiwn gorau i chi (gweler t11).

Pwynt allweddol

Er bod taliadau ar bensiynau rhanddeiliaid wedi'u capio, efallai y bydd gan rai pensiynau personol safonol daliadau is. Chwiliwch o gwmpas cyn prynu bob amser.



Pwynt allweddol

Nid yw byth yn rhy gynnar i ddechrau talu i mewn i bensiwn. Po gyntaf y byddwch yn dechrau po fwyaf y bydd eich cronfa bensiwn yn debygol o fod – gan roi ymddeoliad mwy sicr i chi.

Pensiynau Buddsoddi Personol (SIPP)

Mae SIPP yn gweithio mewn ffordd debyg i bensiwn personol safonol, ond mae rhai cynlluniau yn rhoi dewis llawer ehangach o fuddsoddiadau i chi. Gallwch ddewis a rheoli eich buddsoddiadau eich hun neu dalu cynghorydd ariannol i'ch helpu.

Pam maen nhw'n wahanol?

Rydych chi'n dewis ac yn rheoli'ch buddsoddiadau eich hun, neu'n talu cynghorydd ariannol awdurdodedig i'ch helpu chi.

Gan mai chi'n sy'n rheoli, gallwch wneud newidiadau ac ychwanegiadau i'ch buddsoddiadau fel y mynnwch.

Gan fod SIPP fel arfer yn cynnig ystod ehangach o opsiynau buddsoddi, efallai y bydd ganddynt daliadau uwch na phensiynau personol safonol neu bensiynau cyfrandeiliaid.

Dewis buddsoddiadau

Mae'r rhan fwyaf o SIPPs yn caniatáu i chi ddewis o amrywiaeth o asedau, fel: Gallai hyn gynnwys:

- ymddiriedolaethau unedau
- ymddiriedolaethau buddsoddi
- gwarannau'r llywodraeth
- cronfeydd cwmnïau yswiriant
- polisïau gwaddol a fasnachir
- rhai cynnyrch Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol
- cyfrifon cadw gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- eiddo masnachol (fel swyddfeydd, siopau neu safleoedd ffatri)
- stociau a chyfranddaliadau unigol.

Ni allwch ddefnyddio SIPP i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn eiddo preswyl. Ond efallai y bydd eich darparwr yn gadael i chi fuddsoddi'n anuniongyrchol gan ddefnyddio buddsoddiadau cyfunol penodol, fel ymddiriedolaeth buddsoddi eiddo tiriog (REIT).

Ffioedd a thaliadau

Fel arfer gallwch ddod o hyd i:

- SIPP's 'cost isel' gyda llai o opsiynau buddsoddi
- SIPP's 'llawn' ag opsiynau buddsoddi mwy cymhleth a ffioedd uwch.

Byddwch yn aml yn talu ffi i sefydlu SIPP, ffi reoli flynyddol a thaliadau ar gyfer pob cronfa fuddsoddi. Efallai y bydd rhai ffioedd yn sefydlog, ond bydd llawer yn ganran o'r swm yr ydych wedi'i fuddsoddi.

Cyn cymryd SIPP, chwiliwch o gwmpas a chymharwch gostau.

A yw SIPP's yn addas i chi?

Os ydych o dan 75 oed yn y DU, gallwch ddechrau SIPP. Gallwch hefyd drosglwyddo cronfeydd pensiwn eraill i mewn ar unrhyw oedran.

Mae SIPP's fel arfer yn werth eu hystyried os ydych yn deall marchnadoedd ariannol a bod gennych amser i ymchwilio a rheoli eich buddsoddiadau – neu os gallwch fforddio talu cynghorydd ariannol i wneud hyn ar eich rhan (gweler t11).

Gall buddsoddiadau fynd i fyny ac i lawr, felly mae rheoli SIPP yn golygu cymryd cyfrifoldeb am eich penderfyniadau os aiff pethau o chwith.

Os oes gennych chi fynediad at bensiwn gweithle, mae fel arfer yn gwneud synnwyr i roi arian i mewn i hwnnw yn gyntaf – yn enwedig gan fod eich cyflogwr yn cyfrannu hefyd.

Mae SIPP's yn caniatáu i chi ddewis o ystod eang o fuddsoddiadau rydych yn eu rheoli eich hun. Cofiwch y gall gwerth eich buddsoddiadau godi neu ostwng.

Ystyriwch ddefnyddio cynghorydd ariannol rheoledig i helpu i ddewis a rheoli eich buddsoddiadau SIPP. Os byddwch yn buddsoddi heb gyngor rydych yn llai tebygol o gael eich diogelu os aiff pethau o chwith.

Faint ddylech chi gynilo i mewn i bensiwn?

Dyma sut i gyfrifo faint y gallai fod ei angen arnoch ar gyfer ymddeoliad cyfforddus.

Mae faint i gynilo mewn pensiwn yn dibynnu i raddau helaeth ar:

- beth allwch chi ei fforddio
- faint rydych yn disgwyl y bydd ei angen ar gyfer ymddeoliad cyfforddus.

Gallwch wneud cyllideb i weld faint o arian sbâr a allai fod gennych.

Gweler moneyhelper.org.uk/cynlluniwr-cyllideb i ddefnyddio ein hofferyn ar-lein rhad ac am ddim a hawdd.

Bydd unrhyw arian sy'n cael ei gynilo yn eich pensiwn fel arfer yn cael ei gloi nes eich bod yn 55 oed o leiaf (57 ar ôl Ebrill 2028), felly mae'n syniad da cronni cynilion eraill hefyd.

Bydd ein cyfrifiannell pensiwn yn dangos i chi faint y gallai fod ei angen arnoch ar ôl ymddeol, a faint rydych ar y trywydd iawn i'w gael.

Gweler moneyhelper.org.uk/cyfrifiannell-pensiwn

Gallwch hefyd weld sut y gallai eich incwm ymddeol newid pe byddech yn cynilo mwy neu lai yn eich pensiwn.

Mae'r Safonau Byw ar gyfer Ymddeol hefyd yn rhestru faint y gallai fod ei angen arnoch i gael:

- ffordd o fyw 'lleiafswm' – digon o arian i fyw arno, yn ogystal ag adloniant a gwyliau

- ffordd o fyw 'cymedrol' – sicrwydd ac arian ychwanegol ar gyfer mwy o wyliau ac adloniant, neu
- ffordd o fyw 'cyfforddus' – digon o arian i chi allu talu am y rhan fwyaf o bethau rydych chi am eu gwneud.

Gweler retirementlivingstandards.org.uk

Cadwch olwch ar eich cynilion pensiwn

Mae'n syniad da gwirio'n rheolaidd sut mae'ch cynilion pensiwn yn perfformio. Fel arfer gallwch fewngofnodi i gyfrif neu ap eich darparwr pensiwn ar-lein i weld:

- faint yw gwerth eich pensiwn ar hyn o bryd
- faint mae wedi newid mewn gwerth dros amser
- faint mae'n debygol o'i dalu i chi pan fyddwch chi'n hŷn.

Dylid anfon cyfriflen atoch bob blwyddyn hefyd ag amcangyfrif o faint fydd yr incwm pensiwn y gallech ei gael pan fyddwch yn ymddeol.

Os nad ydych ar y trywydd iawn ar gyfer ymddeoliad cyfforddus, gallech ystyried newid eich cyfraniadau.

Dewis darparwr pensiynau

Os penderfynwch fod pensiwn personol yn addas i chi, gallwch un ai:

- cymharu darparwyr, ffioedd a chynhyrchion eich hun, yna cofrestru ar gyfer un rydych chi wedi'i ddewis. Os yw'r cynnyrch yn troi allan i fod yn anaddas, rydych chi'n llai tebygol o allu gwneud cwyn.
- defnyddio cynghorydd ariannol rheoledig i argymhell cynnyrch i chi.

Cael cyngor ariannol

Awdurdodir cynghorydd ariannol rheoledig gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) a rhaid iddo ddilyn rheolau llym wrth argymhell cynnyrch.

Gallant ddweud wrthych pa fath o bensiwn personol sy'n iawn i chi a chymharu'r farchnad i argymhell cynnyrch addas.

Os bydd y cynnyrch a argymhellir neu'r cronfeydd buddsoddi yn troi allan yn anaddas, gallwch gwyno.

Os bydd y cynghorydd yn gwrthod eich cwyn, gallwch fynd â'ch cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

Angen rhagor o gymorth?

Dewch o hyd i gynghorydd ariannol gyda'n **Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad**

Dim ond manylion cynghorwyr a reoleiddir y mae ein cyfeiriadur yn eu cynnwys – felly mae gennych dawlwech meddwl eich bod wedi'ch diogelu'n llawn. Dewiswch ddelio â'ch cynghorwr yn bersonol, dros y ffôn neu ar-lein.

Chi sydd i benderfynu.

Dewch o hyd i'ch cynghorydd ariannol yn **moneyhelper.org.uk/cyfeiriadur-ymddeol**



Mae'n syniad da cysylltu ag o leiaf dri chynghorydd ariannol rheoledig i gael dyfynbris i argymell cynllun pensiwn personol.

Gofynnwch i bob cynghorydd a allant argymell pensiwn personol gan unrhyw ddarparwr pensiwn yn y farchnad – er mwyn i chi gael y dewis ehangaf – a gwiriwch y byddwch yn cael 'cyngor ariannol rheoledig', nid dim ond gwybodaeth neu ganllawiau heb eu rheoleiddio.

Defnyddiwch gynghorydd ariannol sy'n cael ei reoleiddio a'i awdurdodi gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn unig.

I ddod o hyd i gynghorydd ariannol rheoledig sy'n arbenigo mewn pensiynau ac ymddeoliad, ewch i moneyhelper.org.uk/cyfeiriadur-ymddeol

Cost cyngor ariannol

Rhaid i gynghorwyr rheoledig ddweud wrthynt chi faint fydd eu gwasanaethau'n ei gostio a chytuno gyda chi faint y byddwch yn ei dalu yn awr ac yn y dyfodol.

Gofynnwch i'ch cynghorydd bob amser faint mae'n ei godi arnoch am ei gyngor nawr ac yn y dyfodol.

Prynu heb gyngor

Mae rhai cwmnïau sy'n gwerthu cynnyrch pensiwn yn rhoi help a gwybodaeth yn unig heb roi cyngor gwirioneddol i chi.

Os ydych chi'n prynu trwy'r llwybr hwn, efallai na fyddwch chi'n gallu cwyno os yw'r cynnyrch yn troi allan i fod yn anaddas. Dylai'r cwmnïau hyn restru eu ffioedd hefyd a sut ddylid eu talu.

Os byddwch yn newid eich meddwl wedi i chi gymryd pensiwn a chofnodi amdano

Gallwch ganslo'ch pensiwn a chael ad-daliad o unrhyw arian rydych wedi'i dalu o fewn y 30 diwrnod cyntaf.

Ar ôl hyn, dim ond pan fyddwch yn 55 oed (57 o fis Ebrill 2028) y gallwch gael mynediad at eich arian. Fel arfer gallwch drosglwyddo eich pensiwn i ddarparwr arall ar unrhyw adeg.

Cwynion

Os ydych am gwyno am gyngor gwael are bensiynau, cysylltwch â'r cwmni y gwnaethoch ddelio ag ef a dywedwch wrthynt beth y gallant ei wneud i ddatrys pethau.

Os ydych chi'n anhapus â'u hateb, gallwch fynd â'ch cwyn at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol sy'n rhad ac am ddim (gweler t18).

Pwynt allweddol

Gall cynghorydd ariannol roi cyngor i chi a'ch helpu i ddewis darparwr.

Rhyddhad treth ar gynilion pensiwn

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn y DU sy'n cyfrannu at bensiwn personol yn cael rhyddhad treth ar eu cyfraniadau at bwynt penodol – hyd yn oed os nad ydyn nhw'n talu Treth Incwm yn arferol.

Am bob 80c y byddwch yn ei gyfrannu at eich pensiwn, mae £1 fel arfer yn mynd i mewn i'ch cronfa pensiwn. Mae hyn oherwydd bod Cyllid a Thollau EF (CTHEF) fel arfer yn ychwanegu 20c ychwanegol o ryddhad treth cyfradd sylfaenol.

Er enghraifft, os ydych yn talu £40 y mis i mewn, mae rhyddhad treth fel arfer yn cynyddu hyn i £50.

Os nad ydych yn talu treth neu'n talu'r gyfradd gychwynnol Albanaidd o 19%, byddwch yn dal i gael rhyddhad treth cyfradd sylfaenol o 20% ar yr amod nad ydych yn cyfrannu mwy nag yr ydych yn ei ennill.

Mae eich darparwr pensiwn personol yn hawlio rhyddhad treth cyfradd sylfaenol yn awtomatig ar eich rhan.

Terfynau ar ryddhad treth

Y lwfans blynyddol ar gyfer rhyddhad treth ar gynilion pensiwn fel arfer yw £60,000 neu 100% o'ch enillion – pa un bynnag sydd uchaf.

Os nad oes gennych chi enillion trethadwy, byddwch yn dal i allu talu £2,880 y flwyddyn i gynllun pensiwn a derbyn rhyddhad treth.

Enghraifft

Os ydych yn ennill llai na £3,600 ac yn talu £2,880 y flwyddyn i mewn i'ch pensiwn (£240 y mis), bydd darparwr eich pensiwn

yn hawlio rhyddhad treth cyfradd sylfaenol o £720 (£60 y mis). Golyga hyn y byddai £3,600 (£300 y mis) yn mynd i'ch cronfa fel cyfanswm.

Trethdalwyr cyfradd uwch

Os ydych yn talu Treth Incwm ar gyfradd uwch nag 20%, gallwch hawlio rhyddhad treth ychwanegol – hyd at y gyfraddrydych chi'n ei thalu.

Mae angen i chi gysylltu â CTHEF neu gwblhau ffurflen dreth bob blwyddyn dreth y byddwch yn gymwys. Fel arfer gallwch ôl-ddyddio cais am y tair blynedd dreth ddiwethaf.

Fel arfer byddwch yn cael y rhyddhad treth ychwanegol fel ad-daliad ar ddiwedd y flwyddyn dreth, gostyngiad yn eich bil treth os oes arnoch chi dreth neu bydd eich cod treth yn cael ei newid fel bod llai o dreth yn cael ei thynnu oddi ar eich incwm yn y dyfodol.

Y Lwfans Blynyddol

I gael rhyddhad treth, rhaid i'ch cyfraniadau fod yn llai na (neu'n hafal i) y swm a enillwch.

Y lwfans blynyddol yw'r uchafswm y gellir ei dalu i mewn i bensiwn bob blwyddyn dreth cyn i chi orfod talu treth.

Rhaid i bob taliad i mewn, gan gynnwys eich cyfraniadau, rhyddhad treth ac unrhyw gyfraniadau a wneir gan rywun

arall beidio â bod yn uwch na'r lwfans blynyddol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl, y lwfans blynyddol yw £60,000. Efallai y byddwch hefyd yn gallu cario lwfansau nas defnyddiwyd ymlaen o'r tair blynedd flaenorol.

Lwfans Blynyddol Graddedig os oes gennyh chi incwm uchel

Mae'r lwfans blynyddol safonol o £60,000 fel arfer yn is os yw eich 'incwm wedi'i addasu' (fel arfer eich holl incwm ynghyd â'r swm y mae eich cyflogwr yn ei dalu i mewn i'ch pensiwn) dros £260,000.

Mae eich lwfans blynyddol yn gostwng £1 am bob £2 o incwm wedi'i addasu dros £260,000, hyd nes y cyrhaeddir yr isafswm lwfans blynyddol graddedig o £10,000. Mae hyn yn digwydd os yw eich incwm wedi'i addasu dros £360,000.

Fel arfer ni fydd y lwfans blynyddol graddedig yn berthnasol os yw eich 'incwm trothwy' (fel arfer eich holl incwm llai'r swm a dalwch i mewn i bensiwn) o dan £200,000.

Lwfans blynyddol llai pan ddechreuwch gymryd eich pensiwn

Os byddwch yn cyfnewid eich cronfa bensiwn am arian parod, yn prynu blwydd-dal sy'n gysylltiedig â buddsoddiad, yn dechrau cymryd cyfandaliadau trethadwy neu incwm hyblyg o gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig, gallech sbarduno lwfans blynyddol is o £10,000.

Gelwir hyn yn lwfans blynyddol prynu arian (MPAA).

Taliad treth os ydych yn mynd dros y Lwfans Blynyddol

Os byddwch yn mynd dros y lwfans blynyddol, fel arfer bydd angen i chi ad-dalu unrhyw ryddhad treth a gawsoch dros y terfyn. Gelwir hyn yn daliad treth lwfans blynyddol.

Rhaid i chi gwblhau Ffurflen Dreth Hunanasesiad a naill ai talu'r dreth yn uniongyrchol i CThEF, neu of yn i'ch darparwr pensiwn a allant dalu gan ddefnyddio arian yn eich cronfa bensiwn.

Y lwfans cyfandaliad (LSA)

O 55 oed (57 o fis Ebrill 2028), fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o bob un o'ch pensiynau heb dalu treth – ar yr amod eich bod yn cymryd yr arian fel un cyfandaliad neu fwy a bod y cyfanswm yn llai na'r lwfans cyfandaliad (LSA). Yr LSA yw £268,275 ar gyfer y rhan fwyaf o bobl.

Fel arfer byddwch yn talu Treth Incwm ar gyfandaliadau sy'n uwch na'r LSA.

Cyfandaliad a lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA)

Os byddwch yn marw cyn 75 oed a bod unrhyw un yn etifeddu eich pensiwn, fel arfer gallant ddewis cymryd cyfandaliadau di-dreth ohono – ar yr amod bod y cyfanswm yn llai na'r cyfandaliad a'r lwfans budd-dal marwolaeth (LSDBA). Mae'r LSDBA yn £1,073,100 i'r rhan fwyaf o bobl.

Os cymerwch gyfandaliadau di-dreth cyn i chi farw, bydd eich LSDBA yn cael ei leihau gan yr un swm.

Fel arfer rhaid talu Treth Incwm ar unrhyw gyfandaliadau a gymerir dros yr LSDBA.

Cymryd eich pensiwn

Nid oes angen i chi ymddeol i ddechrau tynnu arian o'ch pensiwn personol – er enghraifft gallwch barhau i weithio'n rhan-amser.

Ar hyn o bryd gallwch ddefnyddio eich cronfa bensiwn:

- ar eich oedran ymddeol isaf arferol – 55 ar hyn o bryd, yn codi i 57 o Ebrill 2028. Yna disgwylir iddo aros 10 mlynedd yn is nag oedran Pensiwn y Wladwriaeth os yw hynny'n cynyddu
- os oes angen i chi ymddeol yn gynnar oherwydd iechyd gwael neu os oes gan eich cynllun oedran ymddeol gwarchodedig.

Opsiynau ar gyfer defnyddio'ch cronfa bensiwn

Pan allwch chi gael mynediad i'ch cronfa, gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech chi gymryd yr arian. Fel arfer gallwch chi:

- Ymddeol yn hwyrach neu ohirio cymryd eich cronfa bensiwn.
- Defnyddio eich cronfa bensiwn i brynu incwm gwarantedig am oes, a elwir yn flwydd-dal oes. Mae'r incwm yn drethadwy, ond gallwch fel arfer ddewis cymryd hyd at 25% o'ch cronfa bensiwn fel cyfandaliad di-dreth un-tro ar y cychwyn.
- Defnyddio eich cronfa i ddarparu incwm ymddeoliad hyblyg, a elwir yn aml yn 'dynnu pensiwn i lawr' neu 'incwm tynnu i lawr'. Unwaith eto, mae'r incwm yn drethadwy ond fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% fel cyfandaliad di-dreth.
- Cymryd symiau bach o arian pan fyddwch eu hangen. Fel arfer, mae 25% cyntaf pob codiad arian parod yn ddi-dreth ac mae'r gweddill yn

drethadwy. Ni allwch hefyd gymryd 25% o'ch cronfa bensiwn gyfan yn ddi-dreth ymlaen llaw.

- Cymryd eich cronfa gyfan fel arian parod – Bydd y 25% cyntaf yn ddi-dreth a'r gweddill yn drethadwy
- Cymysgu eich opsiynau Gallech ddewis ffyrdd gwahanol o ddefnyddio'ch arian o un neu fwy o gronfeydd pensiwn.

Os nad yw'ch cynllun neu ddarparwr pensiwn yn cynnig opsiwn yr hoffech chi ei gael, gallech ystyried trosglwyddo i ddarparwr arall syn cynnig un addas.

Os ydych yn 50 oed neu'n hŷn, gallwch gael apwyntiad Pension Wise am ddim i'ch helpu i egluro'ch opsiynau. Ewch i **moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise**.

Cyn dewis cynnyrch, chwiliwch o gwmpas a chymharwch bob amser – peidiwch â setlo am gynnyrch eich darparwr pensiwn eich hun yn unig. Gall cynghorydd ariannol helpu gyda hyn (gweler t11).

Gallwch ddysgu rhagor am yr opsiynau sydd ar gael trwy ddefnyddio ein hoffer yn opsiynau incwm ymddeol yn **moneyhelper.org.uk/opsiynau-i-ddefnyddio-eich-pot-pensiwn**

Neu lawrlwythwch ein canllaw 'Eich pensiwn: eich dewisiadau'. Ewch i **moneyhelper.org.uk/canllawiau-print-am-ddim**

Egluro'r jargon

Blwydd-dal

Cynnyrch yswiriant sy'n cynnig sicrwydd o incwm am oes (neu am gyfnod penodol) yn gyfnewid am gyfandaliad.

Tynnu arian i lawr

Mae tynnu pensiwn i lawr yn gadael i chi gymryd hyd at 25% fel cyfandaliad di-dreth a gadael y gweddill wedi'i fuddsoddi nes bydd ei angen arnoch. Mae hyn yn golygu y gall gwerth eich pensiwn sy'n weddill fynd i fyny ac i lawr.

Gallwch ddewis sut a phryd yr hoffech gymryd y gweddill, gan gynnwys prynu blwydd-dal ar gyfer incwm gwarantedig, cymryd incwm rheolaidd yn uniongyrchol o'ch cronfa neu gymryd arian yn ôl yr angen. Byddai'r rhain i gyd yn cael eu cyfrif fel enillion trethadwy.

Incwm ymddeol

Yr arian sydd gennych i fyw arno mewn ymddeoliad. Gall hyn ddod o amryw o ffynonellau yn cynnwys Pensiwn y Wladwriaeth, pensiynau personol a'r gweithle, cynilion nad ydynt yn rai pensiwn, budd-daliadau a chyflog o unrhyw waith parhaus.

Gweler eich opsiynau yn moneyhelper.org.uk/opsiynau-i-ddefnyddio-eich-pot-pensiwn

Pensiwn y Wladwriaeth

Taliad rheolaidd gan y llywodraeth yr ydych yn gymwys ar ei gyfer pan gyrhaeddwch oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Bydd y swm a gewch yn dibynnu ar eich cofnod Yswiriant Gwladol. Gallwch weld eich rhagolwg Pensiwn y Wladwriaeth yn gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

Cyfandaliad di-dreth

Fel arfer gallwch gymryd hyd at 25% o'ch cronfa pensiwn fel arian parod di-dreth, ar yr amod nad ydych yn cymryd mwy na'r lwfans cyfandaliad (LSA).

Yr LSA ar gyfer y rhan fwyaf o bobl yw £268,275, oni bai bod mesurau diogelu blaenorol ar waith.

Blwyddyn dreth

O 6 Ebrill un flwyddyn i 5 Ebrill y flwyddyn ganlynol.

Cysylltiadau defnyddiol

HelpwrArian

Mae HelpwrArian yn annibynnol ac yn cael ei gefnogi gan y llywodraeth i'ch helpu i wneud y gorau o'ch arian. Rydym yn rhoi arweiniad arian a phensiynau diduedd am ddim i bawb ledled y DU – ar-lein a thros y ffôn.

Ymwelwch â ni yn
moneyhelper.org.uk/cy

Neu cysylltwch â ni ar:

Ffôn

Arweiniad ar arian
DU: **0800 138 7777**
os ydych y tu allan i'r DU
+44 20 3553 2279
Llun – Gwe 8am to 6pm

Arweiniad ar bensiynau
DU: **0800 011 3797**
os ydych y tu allan i'r DU
+44 20 7932 5780
Llun – Gwe 9am to 5pm

Gwe-sgwrs:

moneyhelper.org.uk/sgwrsarian
moneyhelper.org.uk/sgwrs-
pensiynau

WhatsApp

+44 7701 342744
(arweiniad ar arian yn unig)

Cymunedau ar-lein

Ymunwch â'n grwpiau Facebook am gymorth: **moneyhelper.org.uk/cymunedau-ar-lein**

Dod o hyd i gynghorydd ariannol

Cyfeirlyfr cynghorwyr ymddeoliad

Mae pob un o'r cynghorwyr a restrir yn cael eu rheoleiddio a'u hawdurdodi gan yr FCA i gynnig cyngor ariannol wedi'i reoleiddio.

Defnyddiwch ein cyfeiriadur
Cynghorwyr Ymddeoliad ar-lein yn
moneyhelper.org.uk/cyfeiriadur-
ymddeol i ddod o hyd i gynghorydd.

Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA)

I wirio Cofrestr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, neu i adrodd am hysbysebion ariannol neu hyrwyddiadau eraill sy'n gamarweiniol.

Llinell gymorth defnyddwyr: 0800 111 6768
Typetalk: 1800 10207 066 1000
fca.org.uk/firms/financial-services-
register

Gwybodaeth a chyngor am bensiynau

Am fanylion eich cynllun pensiwn y gweithle, siaradwch â'ch gweinyddwr pensiynau, rheolwr pensiynau neu ymddiriedolwyr pensiwn yn y gwaith.

Pension Wise

Gwasanaeth am ddim gan Helpwr Ariannol sy'n darparu arweiniad diduedd am eich opsiynau pensiwn cyfraniadau wedi'u diffinio.

0800 138 3944

moneyhelper.org.uk/cy/pensionwise

I fod yn gymwys ar gyfer apwyntiad, mae'n rhaid i chi fod yn 50 oed neu fwy a bod gennych chi bensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio. Rydych hefyd yn gymwys os ydych o dan 50 oed gyda salwch neu gronfa bensiwn â chyfraniadau wedi'u diffinio a etifeddwyd.

- Mae ein llinellau gwneud apwyntiad ar agor 9am i 5pm, ddydd Llun i ddydd Gwener
- Byddwn yn anfon e-bost atoch chi i gadarnhau eich apwyntiad.

GOV.UK

I gael gwybodaeth am gynllunio a chynilo ar gyfer ymddeoliad, gan gynnwys Pensiynau'r Wladwriaeth a sut i ddod o hyd i bensiwn coll.

Datganiadau ac ymholiadau Pensiwn y Wladwriaeth

0800 731 0175

gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth

<http://mylostaccount.org.uk>

0800 731 0193

gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn

Cwynion a iawndal

Gwasanaeth yr Ombudsmon Ariannol

0800 023 4567 neu 0300 123 9123

financial-ombudsman.org.uk/cymraeg

Yr Ombudsmon Pensiynau

Ar gyfer cwynion am gynllun pensiwn gweithle neu bensiwn personol.

Mae hefyd yn ystyried cwynion am benderfyniad a wnaethpwyd gan y Gronfa Diogelu Pensiynau neu'r Cynllun Cymorth Ariannol.

0800 917 4487

pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg

Defnyddiwch y dudalen hon i gofnodi'ch nodiadau

[illegible]

This image shows a single sheet of white paper with horizontal ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins, text, or other markings on the paper.

[illegible]



Cynhyrchir y canllaw hwn gan HelpwrArian ac mae hefyd ar gael yn Saesneg. I weld yr ystod llawn o ganllawiau sydd ar gael, ac i ofyn am gopiâu, ewch i moneyhelper.org.uk/cy/contact-us/free-printed-guides

Cymraeg

Cysylltu â ni

Arweiniad ar arian **0800 138 7777**

Llun - Gwe 8am to 6pm

Arweiniad ar bensiynau **0800 011 3797**

Llun - Gwe 9am to 5pm

Gwasanaethau trosglwyddo testun

1800 10800 915 4622

Llun - Gwe 8am to 6pm

WhatsApp **+44 7701 342744**

Gwefan moneyhelper.org.uk/cy

**Helpwr
Arian**



Mae galwadau o'r DU am ddim. Er mwyn ein helpu i gynnal a gwella ein gwasanaeth, efallai y byddwn yn recordio neu fonitro galwadau.

Fformatau hygyrch

Os hoffech chi gael y canllaw hwn mewn Braille, print bras neu fformat sain, cysylltwch â ni â ni ar y rhifau uchod. Gwybodaeth yn gywir ar adeg argraffu (Ebrill 2025). Adolygir y canllawiau hyn unwaith y flwyddyn.

© HelpwrArian Ebrill 2025

Cyf: PP_Apr25_Ed1_Welsh